## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon?**
Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau a gwasanaethau.

**Am beth mae'r uned hon?**
Mae'r uned hon yn ymwneud â'r cymhwysedd sydd ei angen arnoch i fyfyrio ar eich arferion. Bydd hunanwerthuso a myfyrio yn eich galluogi i ddysgu a datblygu eich arferion. Mae'r uned hon hefyd yn cynnwys cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus a sut mae wedi'i ddefnyddio i ddatblygu eich arferion.

**Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen:**

1. Myfyrio ar arferion
2. Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Myfyrio ar arferion**

P1 monitro prosesau, arferion a deilliannau o'ch gwaith eich hun

P2 gwerthuso eich perfformiad eich hun (cyflawniadau, cryfderau a gwendidau) gan ddefnyddio meincnodau arferion gorau

P3 myfyrio ar sut rydych chi'n rhyngweithio ag eraill

P4 rhannu eich myfyrdodau ag eraill a defnyddio eu hadborth i wella'ch gwerthusiad eich hun

P5 defnyddio myfyrio i ddatrys problemau

P6 defnyddio myfyrio i wella arferion

**Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus**

P7 nodi meysydd yn eich gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau lle gallech chi ddatblygu ymhellach

P8 datblygu a negodi cynllun i wella eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ymhellach

P9 chwilio am gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a manteisio arnynt yn rhan o'r cynllun hwn

P10 defnyddio datblygiad proffesiynol parhaus i wella eich arferion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 pam mae myfyrio ar arferion a gwerthuso effeithiolrwydd personol yn bwysig
K2 sut y gall dysgu drwy fyfyrio gynyddu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
K3 sut y gall myfyrio wella a defnyddio profiad personol i gynyddu hyder a hunan-barch
K4 technegau dadansoddi myfyriol:
K4.1 cwestiynu beth, pam a sut
K4.2 chwilio am ddewisiadau amgen
K4.3 cadw meddwl agored
K4.4 gwylio o wahanol safbwyntiau
K4.5 meddwl am ddeilliannau
K4.6 profi syniadau drwy gymharu a gwrthgyferbynnu
K4.7 gofyn 'beth os?'
K4.8 cyd-osod syniadau
K4.9 ceisio, nodi a datrys problemau
K5 myfyrio fel offeryn ar gyfer gwrthgyferbynnu'r hyn yr ydym yn dweud ein bod yn ei wneud a'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn gwirionedd
K6 sut i ddefnyddio myfyrio i herio arferion presennol
K7 yr anawsterau a allai ddigwydd o ganlyniad i archwilio credoau, gwerthoedd a theimladau
K8 sut i asesu meysydd pellach i'w datblygu yn eich sgiliau a'ch gwybodaeth drwy fyfyrio, adborth a defnyddio adnoddau fel y rhyngrwyd, llyfrgelloedd, cyfnodolion
K9 sut i ddatblygu cynllun datblygu personol gydag amcanion sy'n benodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig a chydag amserlenni
K10 argaeledd ac ystod y cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn yr ardal leol a sut i fanteisio arnynt
K11 pwysigrwydd integreiddio gwybodaeth a/neu ddysgu newydd er mwyn cwrdd ag arferion gorau cyfredol, cynlluniau ansawdd neu ofynion rheoleiddio

## Geirfa